PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cael y GORAU o DDIWRNODAU AGORED Prifysgol

Cynnwys

1. Croeso

2. Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored

3. Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored

4. Gwerthuso'ch Diwrnod Agored

5. Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Croeso

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Gwneud y gorau o Ddiwrnod Agored prifysgol

Barry Watkins, Hydref 2010

Crewyd y canllaw hwn ar gyfer darpar fyfyrwyr sydd am wneud y gorau o'u hymweliadau â diwrnodau agored prifysgolion.

Yn y canllaw hwn fe gewch awgrymiadau defnyddiol ar beth i'w wneud cyn mynd i ddiwrnod agored, beth i'w ystyried ar ôl cyrraedd, a hefyd beth i'w wneud ar ôl mynd adre'. Fel y dywedais, dyma fy mhrofiad i a'r hyn oeddwn i'n ei gredu oedd yn effeithiol wrth ymchwilio i mewn i'r lle gorau i astudio fy nghradd.

Cyn mynd i weld prifysgol ewch ati i greu cynllun i'ch paratoi am yr hyn sydd o'ch blaen. Paratowch cyn mynd i ddiwrnod agored ac fe fyddwch yn fwy clir yn eich meddwl pa sefydliad sy'n ateb eich anghenion orau. Drwy baratoi'n drylwyr gallwch sicrhau y byddwch yn dewis y brifysgol orau ar eich cyfer chi.

Darllenwch yn eich blaen i ddarganfod yr hyn sydd ei angen i wneud y gorau o'ch Diwrnod Agored:

Cyn eich ymweliad

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Cyn eich ymweliad

1. Mae Diwrnod Agored yn ffordd i chi ddod i andabod sefydliad; does dim rhaid i chi ymrwymo i'r sefydliad

2. Gall fod yn anodd i chi ymweld â nifer fawr o brifysgolion - ceisiwch lunio rhestr fer o sefydliadau sy'n gweddu eich anghenion academaidd a chymdeithasol

3. Darllenwch am bob un o'r sefydliadau yr hoffech ymweld â hwy cyn mynd i'w Diwrnod Agored; edrychwch hefyd ar ganllawiau amgen ac anibynnol sydd ar gael, gan eu bod yn dangos persbectif arall-mae gan y mwyafrif o brifysgolion brosbectws amgen wedi ei ysgrifennu gan fyfyrwyr

4. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am beth yr ydych chi'n chwilio mewn prifysgol ac yna sicrhewch bod y brifysgol yn ei gynnig e.e. cyflogadwyedd, ansawdd dysgu, ffordd o fyw ayyb

5. Rhai cwestiynau i chi geisio'u hateb:

a. Ydy'r brifysgol yn rhy agos neu'n rhy bell o adre'?
b. Ydych chi eisau bod ar gampws neu mewn dinas?
c. Ydy'r bywyd hamdden a chymdeithasol yr ydych ei eisiau yno?
ch. Fedrwch chi **fwynhau** 3 mlynedd yno?
d. Pa agweddau o fywyd prifysgol sy'n hanfodol i chi?
dd. Pa nodweddion allwch chi fyw hebddynt?

6. Dewch â ffrind gyda chi, maent yn fwy tebygol o roi barn onest i chi

7. Sicrhewch eich bod yn gwybod ble mae'r adrannau yr hoffech eu gweld wedi'u lleoli. Mewn rhai prifysgolion fe allant fod yn bell oddi wrth ei gilydd

Cyn eich ymweliad

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

8. Gwnewch nodyn o'r hyn yr ydych yn ei hoffi am y cynlluniau gradd sydd o ddiddordeb i chi

9. Sicrhewch bod gennych gopi o fap y campws a Rhaglen y Diwrnod Agored

10. Rhowch wybod i'r brifysgol eich bod yn bwriadu ymweld; mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion ffurflen ar eu gwefan i chi ei chwblhau, neu gerdyn yn y prosbectws i chi ei lenwi

11. Cyn i chi fynd ystyriwch gyrsiau eraill yn y brifysgol a allai fod o ddiddordeb i chi, rhag ofn bod eich dewis cyntaf yn anaddas

12. Paratowch gwestiynau "**perthnasol i'ch cwrs**" ar gyfer tiwtoriaid a rhai cwestiynau cyffredinol i ofyn i lysgenhadon. Er enghrafft:

Cwestiynau Perthnasol i'r Cwrs

a. Faint o oriau ar gyfartaledd, sydd angen ar gyfer astudio'r radd hon?
b. Faint o amser fyddai'n dreulio mewn a) darlithoedd, b) tiwtorialau, c) seminarau, ch) labordai, d) gwaith maes?
c. Faint o lyfrau/andoddau fydd angen i mi eu prynu bob semester ac oes modd eu cael yn ail law?
ch. Faint o lyfrau cwrs sy'n cael eu cadw yn y llyfrgell?
d. Sut mae gwaith yn cael ei asesu a pha mor aml mae'r arholiadau?

Cwestiynau cyffredinol i Lysgenhadon

dd. Beth yw'r costau byw bob dydd?
e. Beth yw'r uchafbwyntiau cymdeithasol?
f. Pa mor hawdd yw hi i deithio, cerdded o gwmpas?
ff. Ydy hi'n hawdd cael llyfrau o'r llyfrgell?
g. Cymorth cyffredinol byddent yn rhoi?

Cyn eich ymweliad

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

13. Cofiwch ddod â phapur a phensel!

14. Cofiwch ddod â chôt gan y bydd yn anodd iawn canolbwyntio os byddwch chi'n wlyb neu'n oer. Mae prifysgolion yn gallu addo nifer o bethau ond yn methu addo tywydd braf

15. Fel rheol, ceisiwch ymweld ag un brifysgol ar unrhyw Ddiwrnod Agored penodol, gan y gallant fod yn ddiwrnodau hir a blinedig

16. Ffoniwch o flaen llaw os ydych angen cadarnhau manylion parcio, bysiau neu wybodaeth am drenau ayyb., neu os ydych yn ansicr am unrhyw beth

17. Cynlluniwch eich taith, yn enwedig os ydych yn teithio'n bell. Mae'n syniad da i wybod yn union beth yw hyd y daith

18. Gadewch yn gynnar, rhowch ddigon o amser i chi ymlacio cyn i'r diwrnod ddechrau, does dim byd gwaeth na dod allan o'r car i fynd ar daith o amgylch y campws yn syth

Felly mae'r gwaith paratoi wedi'i wneud, y cwbl sydd ar ôl yw ymweld â'r brifysgol, gyda'ch pen yn llawn cwestiynau ac yn barod am unrhywbeth.

Yn ystod y diwrnod

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Yn ystod y diwrnod

1. Cofiwch siarad gyda phobl leol a myfyrwyr eraill sy'n medru cynnig persbectif arall i chi; un sy'n medru bod o dra gwahanol i'r negeseuon marchnata mae'r brifysgol eisiau i chi eu clywed

2. Bydd gan y brifysgol deithiau o amgylch y campws, ceisiwch fynd ar ddau- un yn y bore ac un yn y prynhawn. Bydd yr ail yn rhoi cyfle i chi ofyn mwy o gwestiynau penodol gan bod y daith gyntaf yn medru bod braidd yn brysur

3. Cofiwch ddod o hyd i diwtor o'ch adran er mwyn gallu gofyn yr holl gwestiynau yr ydych wedi'u paratoi, gan gynnwys:

a. Faint o waith sydd i'w wneud ar gyfer y radd?
b. Oes nifer fawr o arholiadau i'w sefyll, neu oes llawer o waith cwrs neu oes cyfuniad o'r ddau?
c. A fydd aseiniadau i'w cwblhau pan fyddwch i ffwrdd o'r brifysgol?
ch. Sut mae'r modiwlau yn cael eu marcio?
d. Beth yw cyfradd cyflogadwyedd y cwrs?
dd. Beth yw cymhareb staff / myfyrwyr y cwrs?

4. Mae tiwtoriaid eisiau gweld eich bod yn dangos diddordeb yn eu sefydliad, felly hyd yn oed os mai hwn yw'r degfed lle i chi ymweld ag ef, ceisiwch beidio edrych yn rhy flinedig!

Yn ystod y diwrnod

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

5. Ewch ar daith o amgylch ystafelloedd darlithio a thiwtorialau'r yr ardan. Hefyd, ewch i weld y labordai, yr andoddau cyfrifiadurol a'r llyfrgelloedd tra eich bod yno

6. Siaradwch gyda'r ysgrifenyddesau gan fod ganddynt bob math o wybodaeth am yr adran - er bod uwch ddarlithwyr yr adran yn cael eu hedmygu'n fawr, yr ysgrifenyddesau sy'n gwneud i **bopeth** ddigwydd

7. Ewch i weld y llety sydd ar gael a gofynwch gwestiynau e.e:

a. Oes cysylltiad i'r we ac a yw'n rhad ac am ddim?
b. Sut andoddau coginio ac ymolchi sydd yno?
c. Pa mor ddigoel yw'r ystafelloedd?
ch. Faint yw'r rhent bob wythnos, pa mor aml sydd angen ei dalu a beth sy'n digwydd yn ystod y gwyliau?
d. Beth sy'n digwydd os ydych eisiau math arbennig o lety?

8. Mae rhai o'r cyflwyniadau yn angenrheidiol felly ceisiwch beidio'u colli

9. Darganfyddwch gymaint ag y gallwch am gymorth ariannol - gallai hyn fod yn bwysig iawn i chi felly sicrhewch eich:

a. Bod yn gofyn am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau
b. Yn deall eu gwerth
c. Yn deall sut i wneud cais ac os byddwch yn gymwys ar eu cyfer ai peidio

10. Ceisiwch fwyta yn un o'r bwytfeydd ar y campws. Ar ôl i chi gyrraedd prifysgol byddwch yn treulio llawer o amser yn bwyta yno felly sicrhewch bod y bwyd yn dda!

Yn ystod y diwrnod

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

11. Peidiwch â chael eich cyfyngu gan yr amserlen swyddogol, mae nifer o ddarpar fyfyrwyr yn aros tan ar ôl i'r diwrnod orffen yn swyddogol. Gallai hyn fod yr amser gorau i siarad gyda thiwtor a gofyn cwestiynau mwy manwl, ac hefyd yn gyfle i chi gael blasu gwir awyrgylch y brifysgol unwaith i bethau dawelu ar ôl prysurdeb y dydd.

Ar ddiwedd y dydd ewch am dro o amgylch y dref i gael syniad o sut beth fyddai byw yna

12. Ceisiwch weld rhannau o'r briyfysgol sydd ddim fel arfer yn cael eu gweld ond y byddwch chi'n eu defnyddio pan yn fyfyriwr, e.e. golchdai

13. Dylai Diwrnodau Agored rhoi syniad i chi hefyd o'r bywyd cymdeithasol a chwaraeon felly cymerwch eich amser i:

a. Edrych ar yr andoddau chwaraeon
b. Ymweld ag Undeb y Myfyrwyr
c. Daranfod y cymdeithasau
ch. Darganfod beth sydd gan undeb y myfyrwyr i'w gynnig
d. Edrych ar y caffis a'r bariau, rhain yw calon cymdeithasol unrhyw brifysgol

14. Ewch i weld y siopau lleol, mae'r rhan fwyaf o drefi prifysgol yn gwasanaethu myfyrwyr

Pan bydd y cwbl ar ben

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Pan bydd y cwbl ar ben

Erbyn hyn dylech fod â llawer o wybodaeth i'w ystyried, felly dilynwch y canllawiau hyn nesaf:

1. Peidiwch â theimlo dan bwysau i ddewis yn y man a'r lle; ewch adref ac ystyriwch yr holl wybodaeth

2. Gall eich rhieni gynnig cymorth defnyddiol, ond eich cyfrifoldeb chi yw dewis y brifysgol sydd fwyaf addas ar eich cyfer

3. Adolygwch eich ymweliad ar ôl ychydig ddyddiau; edrychwch ar bopeth gyda phersbectif ffres. Adolygwch eich nodiadau os oes gennych rai, a siaradwch gyda'ch ffrindiau i gael eu barn

4. Paratowch gwestiynau newydd os oes angen, a ffoniwch y brifysgol. Bydd tiwtoriaid yn hapus i'ch helpu a byddant yn hoff o'r ffaith eich bod yn dangos cymaint o ddiddordeb mewn astudio gyda nhw

5. Cofiwch, os oes gennych wir ddiddordeb mewn prifysgol ond eich bod am wybod mwy bydd cyfle i chi ymweld eto wedi i chi wneud cais. Gelwir rhain yn "ddiwrnodau ymweld" ac mae adrannau yn cynnig sawl un yn ystod y tymor

6. Adolygwch eich opsiynau wedi i chi gael eich cynigion gan UCAS

Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Pam bod angen i chi ddod i Aberystwyth ar Ddiwrnod Agored

Rydyn ni'n caru Aberystwyth, mae'n myfyrwyr yn caru Aberystwyth, ac rydym ni'n credu y byddi di'n caru'r lle hefyd, ond yr unig ffordd o wybod os fydd Prifysgol Aberystwyth yn iawn i ti yw i ddod i'n gweld ar un o'n Diwrnodau Agored

Wyddost di bod dau o bob tri myfyriwr sy'n dod i'n gweld ar Ddiwrnod Agored yn dewis dod i astudio gyda ni. Ac, mae'r un myfyrwyr yn caru Prifysgol Aberystwyth gymaint nes eu bod yn parhau i'n ethol fel "**Y Lle Gorau yn y DU i fod yn fyfyriwr**" a'r "**Brifysgol orau yn y DU am foddhad Myfyrwyr**".

Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth 2011

Mercher 6ed o Orffennaf
Mercher 14eg o Fedi
Sadwrn 15fed o Hydref

Os hoffech ddod i weld Prifysgol Aberystwyth yn ystod un o'r Diwrnodau Agored cofrestrwch eich diddordeb yma:

http://www.aber.ac.uk/info/opr-cy

Rydym yn parchu eich preifatrwydd a byddwn yn cadw eich data yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig i fyfyrwyr yr addysg o'r safon uchaf ynghyd â chymuned gref a chlos, ac awyrgylch ddiogel a hwyliog. Ychwanegwch gyfleon gyrfaol gwych at hyn ac mae'n hawdd iawn gweld pam ein bod mor boblogaidd.

Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Gwyddom eich bod yn brysur iawn ac mai prin iawn yw'ch amser i ymweld â phrifysgolion. Felly, i'ch helpu i benderfynu os ydych am ymweld â Phrifysgol Aberystwyth ar un o'n Diwrnodau Agored rydym wedi casglu rhesymau i'ch darbwyllo pam y byddem ni'n ddewis cywir i chi:

Beth sydd mor dda am fywyd yn Aberystwyth?

Ai'r campws cyfeillgar gyda theimlad o gymuned? Yr awyrgylch diogel? Y dewis eang o gyrsiau gradd? Ein rhagoriaeth mewn dysgu? Neu'r ffaith mai ni yw un o'r prifysgolion sydd â chostau byw rhataf?
Gwyliwch y fideo

Beth sydd mor wych am fywyd Academaidd Aberystwyth?

Tybed os mai oherwydd ein bod ni'n brifysgol sydd wedi'i hen sefydlu ac yn fyd enwog am ragoriaeth academaidd? Ai'r andoddau gwych? Neu ai oherwydd ein bod yn eich helpu i wneud y gorau o'ch cymwysterau?
Gwyliwch y fideo

Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Beth sydd mor dda am Fywyd Cymdeithasol Prifysgol Aberystwyth?

Ai'r 60 o dafarndai a chlybiau yn y dref neu'r Ganolfan Gelfyddydau gwych? Bywyd diwylliannol sy'n well na dinasoedd llawer mwy? Ai'r cyngherddau, y theatrau, yr ardangosfeydd celf a dylunio neu'r gwyliau celf? Neu'r ai'r ffaith ein bod yn brifysgol ar gampws a bod eich ffrindiau i gyd gerllaw?
Gwyliwch y fideo

Beth sydd mor dda am Fywyd Chwaraeon yn Aberystwyth?

Ai'r 4,500 o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau chwaraeon? Y dewis eang o chwaraeon dan do ac awyr agored? Ai llwyddiant ein timau? Beth bynnag yw eich diddordeb a'ch gallu gall Aberystwyth roi'r cyfle i chi gymeryd rhan.
Gwyliwch y fideo

Os hoffech ddod i weld Prifysgol Aberystwyth yn ystod un o'r Diwrnodau Agored cofrestrwch eich diddordeb yma.

http://www.aber.ac.uk/info/opr-cy

Rydym yn parchu eich preifatrwydd a byddwn yn cadw eich data yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data

Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Barn ein myfyrwyr am Aberystwyth

Dal yn ansicr os ydych am ddod i weld Prifysgol Aberystwyth? Dyma i chi rai dyfyniadau gan ein myfyrwyr cyfredol:

Bywyd:

- "Fy hoff beth am astudio yn Aberystwyth yw'r teimlad o gymuned - mae'n amhosib mynd o amgylch y campws neu'r dref heb weld rhywun chi'n 'nabod!"

Rebecca Elliott: Bioleg y Môr a Dŵr Croyw.

- "Pan chi'n mynd allan mae pawb i'w weld yn fyfyriwr felly mae'n hawdd adnabod pobl a dod i 'nabod llawer o bobl gwahanol. Dwi'n meddwl bod yr awyrchylch mor hyfryd yma a'r bobl hefyd; mae'n le mor hawdd i fyw!"

Leana Hannon: BA Y Gyfraith.

Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Bywyd Academaidd:

- "Mae Aberystwyth yn le gwych i ddysgu celf!"

Alexandra Jolly: Celfyddyd Gain a Hanes Celf.

- "Roedden i eisiau astudio cyfrifeg a chyllid gyda Sbaeneg, mae'n gwrs anarferol ond roedd Aberystwyth yn ei gynnig."

Alicia Green: Cyfrifeg a Chyllid gyda Sbaeneg.

- "Dwi ddim yn synnu ein bod ni'n 1af yn Arolwg Boddhad Myfyrwyr (2010). Allai ddim cymeradwyo'r Brifysgol ddigon; os allwn i roi cyngor i ddarpar fyfyrwyr byddwn yn bendant yn eu hannog i ddewis Aberystwyth."

Alexandra Bateman: Addysg a Daearyddiaeth.

- "Ymwelais i ar Ddiwrnod Agored cyffredinol ac ar Ddiwrnod Ymweld, oedd yn ddefnyddiol iawn. Mae staff yr adran yn barod iawn i helpu yn enwedig os oes gennych broblem gyda thiwtorial, mae'n nhw'n rhoi digonedd o help a chyngor."

Ceri Hassall: BA Daearyddiaeth.

- "Mae'r andoddau academaidd yn ardderchog, yn enwedig Llyfrgell y Gyfraith-mae'r casgliad ymchwil yn anferth."

Emmeline Paitin: Y Gyfraith.

- "Dewisais Aberystwyth gan fod yr adran yn anhygoel - clywais am ei henw da, a phan es i'w gweld roedd pawb mor gyfeillgar. Roedd un o'r prif ddarlithwyr yn sgwrsio gyda fi dros siocled poeth- roedd hyn yn arwydd da!"

Adam Groves: BSc Gwleidyddiaeth Rhyngwladol.

Diwrnodau Agored Prifysgol Aberystwyth

Cynnwys

- *Croeso*
- *Beth i'w wneud cyn Diwrnod Agored*
- *Beth i'w wneud yn ystod Diwrnod Agored*
- *Gwerthuso'ch Diwrnod Agored*
- *Diwrnodau Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Bywyd Cymdeithasol a Diwylliannol:

- "Dwi'n meddwl mai'r awyrgylch yw'r peth gorau am Aberystwyth- y gymysgedd hawdd rhwng y bywyd academaidd a'r bywyd cymdeithasol. Byddwn i'n argymell unrhywun i ddod yma!"

Layla Freeborn: BSc Bioleg.

- "Mae'r bywyd cymedeithasol yma'n unigryw. Mae pob math o glybiau a chymdeithasau yma, rhywbeth at ddant pawb. Mae'n le delfrydol i astudio ac i fyw!"

Andrew Bagchi: Economeg Busnes.

A dyna ni, Diwrnodau Agored wedi eu sortio , a gyda chymorth y canllaw yma a'ch profiad a'ch gwybodaeth mae'r cwrs, yr adran a'r sefydliad perffaith wedi'i ddewis. Felly dyna ni, y cyfan sydd gen i i'w ddewud yw… **LLONGYFARCHIADAU** am ddewis ymweld â Phrifysgol Aberystwyth…fe wnes di ddewis Aberystwyth… do?

Os hoffech ddod i ymweld â Phrifysgol Aberystwyth yn ystod un o'r Diwrnodau Agored cofrestrwch eich diddordeb yma.

http://www.aber.ac.uk/info/opr-cy

Rydym yn parchu eich preifatrwydd a byddwn yn cadw eich data yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data